OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 No. 873

# Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006

## RHAN 3

Darpariaethau sy'n ymwneud ag ysgolion sefydledig, ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion arbennig sefydledig

**Dehongli Rhan 3**

**20.** Mae'r Rhan hon yn gymwys i ysgolion sefydledig, ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion arbennig sefydledig(**1**).

**Cyngor y prif swyddog addysg ar benodi athrawon**

**21.**—(1) Er mwyn rhoi cyngor, mae gan brif swyddog addysg yr awdurdod addysg lleol, neu ei gynrychiolydd, hawl i fod yn bresennol yn y canlynol—

(a) holl drafodion y corff llywodraethu (gan gynnwys cyfweliadau), a holl drafodion unrhyw banel dewis a benodir o dan reoliad 24(8), sy'n ymwneud â phenodi neu gymryd ymlaen y mae unrhyw un o ddarpariaethau rheoliadau 24 neu 26(12) i (16) yn gymwys iddynt, a

(b) holl drafodion y corff llywodraethu (gan gynnwys cyfweliadau), a thrafodion unrhyw bersonau y dirprwyir unrhyw rai o swyddogaethau'r corff llywodraethu o dan reoliad 26 iddynt, sy'n ymwneud â phenodi neu gymryd ymlaen y mae unrhyw un o ddarpariaethau rheoliad 26 yn gymwys iddynt.

(2) Mae gan y prif swyddog addysg, neu ei gynrychiolydd, hawl i gynnig unrhyw gyngor sy'n briodol yn ei farn ef mewn perthynas â'r canlynol—

(a) penodi pennaeth neu ddirprwy bennaeth neu benodi neu gymryd ymlaen bennaeth neu ddirprwy bennaeth dros dro, neu

(b) unrhyw fater sy'n codi mewn cysylltiad ag unrhyw benodi neu gymryd ymlaen o'r fath.

(3) Rhaid i unrhyw gyngor sy'n cael ei roi gan y prif swyddog addysg, neu ei gynrychiolydd—

(a) i'r corff llywodraethu,

(b) i unrhyw banel dewis a benodir o dan reoliad 24(8), neu

(c) i unrhyw bersonau y dirprwyir unrhyw rai o swyddogaethau'r corff llywodraethu o dan reoliad 26 iddynt,

mewn perthynas ag unrhyw fater sy'n ymwneud â phenodi neu gymryd ymlaen ac sydd i'w benderfynu ganddynt gael ei ystyried ganddynt cyn iddynt benderfynu ar y mater hwnnw, p'un a gafodd y cyngor ei roi ar eu cais neu beidio.

(**1**) Ond os nad oes gan ysgol gyllideb ddirprwyedig fel y mae wedi'i diffinio gan adran 39(2) o Ddeddf 2002, mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn yn effeithiol yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rhan 2 o Atodlen 2 i Ddeddf 2002, yn unol ag adran 36(7) o Ddeddf 2002.

**Cyngor y pennaeth ar benodi athrawon**

**22.** Ac eithrio mewn perthynas â phenodi pennaeth—

(a) mae rheoliad 21(1) yn gymwys mewn perthynas â'r pennaeth (os nad oes gan y pennaeth hawl fel arall i fod yn bresennol yn y trafodion sydd wedi'u crybwyll yno) fel y mae'n gymwys mewn perthynas â'r prif swyddog addysg, a

(b) mae rheoliad 21(3) yn gymwys mewn perthynas â chyngor sy'n cael ei roi gan y pennaeth fel y mae'n gymwys mewn perthynas â chyngor sy'n cael ei roi gan y prif swyddog addysg.

**Hawliau cynghori i awdurdodau esgobaethol priodol**

**23.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol sefydledig sy'n un o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru, Eglwys Loegr neu'r Eglwys Gatholig Rufeinig.

(2) Os ysgol wirfoddol a gynorthwyir yw'r ysgol, mae gan y swyddog esgobaethol priodol yr un hawliau cynghori mewn perthynas â phenodi athrawon yn yr ysgol, eu cymryd ymlaen neu eu diswyddo ag sy'n arferadwy gan y prif swyddog addysg yn unol â rheoliadau 21 a 30(1) a (2).

(3) Os ysgol sefydledig yw'r ysgol, caiff y corff llywodraethu gytuno â'r awdurdod esgobaethol priodol i roi'r un hawliau cynghori i'r swyddog esgobaethol priodol—

(a) mewn perthynas â'r holl athrawon yn yr ysgol, neu

(b) mewn perthynas ag unrhyw ddisgrifiad penodol o athrawon o'r fath,

o ran eu penodi, eu cymryd ymlaen neu eu diswyddo ag sy'n arferadwy gan y prif swyddog addysg yn unol â rheoliadau 21 a 30(1) a (2).

(4) Rhaid i gytundeb y corff llywodraethu at ddibenion paragraff (3) gael ei roi yn ysgrifenedig a dim ond drwy hysbysiad mewn ysgrifen i'r awdurdod esgobaethol priodol y gall gael ei dynnu'n ôl.

(5) Yn rheoliadau 21 a 30(1) a (2), fel y maent yn gymwys i ysgol ym mharagraff (2) neu (3), mae cyfeiriadau at y prif swyddog addysg gan hynny yn cynnwys y swyddog esgobaethol priodol, i'r graddau sy'n angenrheidiol i roi eu heffaith i unrhyw hawliau cynghori sy'n arferadwy gan y swyddog esgobaethol priodol o dan y rheoliad hwn.

(6) Yn y rheoliad hwn ystyr "y swyddog esgobaethol priodol" ("*the appropriate diocesan officer*") yw unrhyw berson a enwebir gan yr awdurdod esgobaethol priodol.

**Penodi pennaeth a dirprwy bennaeth**

**24.**—(1) Rhaid i'r corff llywodraeth hysbysu'r awdurdod yn ysgrifenedig am swydd wag i bennaeth neu ddirprwy bennaeth yr ysgol cyn cymryd unrhyw un o'r camau sydd wedi'u crybwyll ym mharagraffau (2) i (18).

(2) Os yw'r swydd wag yn swydd i bennaeth a naill ai bod y swydd heb ei llenwi neu ei bod yn ymddangos i'r corff llywodraethu na chaiff y swydd ei llenwi, drwy benodi yn unol â pharagraffau (7) i (18) cyn y dyddiad y daw'n wag, mae'n rhaid i'r corff llywodraethu naill ai—

(a) penodi person yn bennaeth dros dro, neu

(b) arfer ei bŵer o dan baragraff (5).

(3) Os yw'r swydd wag yn swydd i ddirprwy bennaeth a naill ai bod y swydd heb ei llenwi neu ei bod yn ymddangos i'r corff llywodraethu na chaiff y swydd ei llenwi, drwy benodi yn unol â pharagraffau (7) i (18) cyn y dyddiad y daw'n wag, fe gaiff y corff llywodraethu naill ai—

(a) penodi person yn ddirprwy bennaeth dros dro, neu

(b) arfer ei bŵer o dan baragraff (5).

(4) Rhaid peidio â phenodi neb o dan baragraff (2) neu (3) oni bai ei fod yn bodloni'r holl ofynion ynglŷn â chymwysterau staff sy'n gymwys mewn perthynas â'i benodi.

(5) Yn lle penodi o dan baragraff (2) neu (3), er mwyn llenwi'r swydd wag fe gaiff y corff llywodraethu—

(a) cymryd person ymlaen, neu

(b) trefnu cymryd person ymlaen

i roi ei wasanaethau fel pennaeth dros dro, neu (yn ôl fel y digwydd) dirprwy bennaeth dros dro, heblaw o dan gontract cyflogaeth.

(6) Rhaid peidio â chymryd neb ymlaen o dan baragraff (5) oni bai ei fod yn bodloni'r holl ofynion ynglŷn â chymwysterau staff sy'n gymwys mewn perthynas â'r pennaeth neu (yn ôl fel y digwydd) y dirprwy bennaeth yn yr ysgol.

(7) Rhaid i'r corff llywodraethu hysbysebu unrhyw swydd wag o'r fath mewn unrhyw gyhoeddiadau sy'n cylchredeg ledled Cymru a Lloegr y mae'n credu eu bod yn briodol.

(8) Yn ddarostyngedig rhaid i'r corff llywodraethu benodi panel dewis sy'n cynnwys o leiaf dri ond heb fod yn fwy na saith o aelodau, er mwyn—

(a) dewis ar gyfer cyfweliad yr ymgeiswyr hynny am y swydd sy'n addas ym marn y panel ac, os yw'r swydd yn swydd i bennaeth, hysbysu'r awdurdod yn ysgrifenedig am enwau'r ymgeiswyr sydd wedi'u dewis fel hyn,

(b) rhoi cyfweliad i unrhyw rai o'r ymgeiswyr hynny a fydd yn bresennol at y diben hwnnw, ac

(c) os yw'r panel yn credu ei bod yn briodol gwneud hynny, argymell un o'r ymgeiswyr y cyfwelwyd â hwy gan y panel i'r corff llywodraethu i gael ei benodi.

(9) Rhaid i'r panel dewis ethol cadeirydd o blith aelodau'r panel.

(10) Nid yw llywodraethwr a gaiff ei dalu i weithio yn yr ysgol neu sy'n ddisgybl yn yr ysgol yn gymwys i fod yn gadeirydd y panel dewis.

(11) Caiff y corff llywodraethu symud cadeirydd unrhyw banel dewis o'r swydd ar unrhyw adeg.

(12) Caiff aelodau panel dewis gynnwys personau nad ydynt yn llywodraethwyr ac mae i ba raddau y mae gan bersonau o'r fath yr hawl i bleidleisio i'w benderfynu gan y corff llywodraethu.

(13) Rhaid i fwyafrif aelodau unrhyw banel dewis fod yn llywodraethwyr.

(14) Pan fo'r pleidleisiau'n gyfartal, mae gan y cadeirydd neu, yn ôl y digwydd, y person sy'n gweithredu fel cadeirydd at ddibenion y cyfarfod (ar yr amod bod y cyfryw berson yn llywodraethwr), ail bleidlais neu bleidlais fwrw.

(15) Rhaid i unrhyw benderfyniad gan y panel dewis gael ei gymryd drwy gyfrwng pleidlais sy'n fwyafrif absoliwt o holl aelodau'r panel (p'un a fyddant yn cymryd rhan yn bleidlais neu beidio).

(16) Os yw'r awdurdod, o fewn cyfnod o bedwar diwrnod ar ddeg sy'n dechrau ar y dyddiad y caiff ei hysbysu o dan baragraff (8)(a), yn cyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r panel dewis nad yw unrhyw un o'r ymgeiswyr yn berson addas ar gyfer y penodiad, rhaid i'r panel dewis—

(a) ystyried y sylwadau hynny, a

(b) os yw'n penderfynu argymell i'w benodi y person y cafodd y sylwadau eu cyflwyno amdano—

(i) hysbysu'r awdurdod yn ysgrifenedig am ei resymau, a

(ii) rhoi copi i'r corff llywodraethu o'r sylwadau hynny a chopi o ymateb y panel iddynt.

(17) Caiff y corff llywodraethu benodi'r person sydd wedi'i argymell gan y panel dewis i'r swydd wag neu i'r swydd sydd i'w llenwi, cyhyd ag y bydd y person yn bodloni'r holl ofynion perthnasol ynglŷn â chymwysterau staff.

(18) Os—

(a) na fydd y panel dewis yn argymell person i'r corff llywodraethu, neu

(b) bod y corff llywodraethu'n gwrthod penodi'r person sydd wedi'i argymell gan y panel dewis,

caiff y panel dewis ddewis person arall i'w benodi yn unol â'r rheoliad hwn (ond nid yw hyn yn atal ymgeisydd sydd eisoes yn bodoli rhag cael ei ddewis).

(19) Wrth benderfynu a yw person yn addas i'w benodi'n bennaeth mae'n rhaid i'r corff llywodraethu roi sylw i unrhyw ganllawiau sy'n cael eu rhoi o dro i dro gan y Cynulliad Cenedlaethol.

(20) Ym mharagraff (2) mae'r cyfeiriad at baragraffau (7) i (18) yn cynnwys cyfeiriad at reoliad 33 neu 34; ac ym mharagraff (3) mae'r cyfeiriad at baragraffau (7) i (18) yn cynnwys cyfeiriad at reoliad 34.

**25.**—(1) Fe gaiff y corff llywodraethu, mewn cysylltiad ag unrhyw absenoldeb ar ran y person sydd am y tro yn dal swydd pennaeth neu ddirprwy bennaeth yr ysgol, gymryd y naill neu'r llall o'r camau sydd wedi'u crybwyll yn is-baragraffau (a) a (b) o baragraff (2) neu (yn ôl fel y digwydd) (3) o reoliad 24.

(2) At ddibenion y rheoliad hwn—

(a) mae rheoliad 24(4) yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw argymhelliad sydd wedi'i wneud yn rhinwedd paragraff (1) fel y mae'n gymwys mewn perthynas ag unrhyw argymhelliad sydd wedi'i wneud yn rhinwedd rheoliad 24(2) neu (3); a

(b) mae rheoliad 24(5) a (6) yn gymwys mewn cysylltiad ag unrhyw absenoldeb o'r math sydd wedi'i grybwyll ym mharagraff (1) fel y maent yn gymwys er mwyn llenwi unrhyw swydd wag o'r math sydd wedi'i grybwyll yn rheoliad 24(2) neu (3).

**Penodi athrawon eraill**

**26.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) i (6), mae paragraffau (7) i (16) yn gymwys mewn perthynas â llenwi unrhyw swydd wag i athro neu athrawes (boed yn swydd amser llawn ynteu rhan-amser) yn yr ysgol, heblaw swydd pennaeth neu ddirprwy bennaeth.

(2) Nid yw paragraffau (7) i (16) yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw benodiad dros dro neu unrhyw gymryd ymlaen dros dro i lenwi unrhyw swydd wag o'r math sydd wedi'i grybwyll ym mharagraff (1)—

(a) am gyfnod nad yw'n fwy na phedwar mis, neu

(b) os yw'n ymddangos i'r corff llywodraethu na fydd y cyfnod y bydd y person sydd wedi'i benodi neu wedi'i gymryd ymlaen yn gweithredu yn y swydd o dan sylw yn fwy na phedwar mis.

(3) Os yw'n ymddangos i'r corff llywodraethu yn achos unrhyw swydd y byddai'n briodol i benodiad o'r math sydd wedi'i grybwyll ym mharagraff (2) gael ei wneud, cânt benodi person i'r swydd ar unrhyw delerau o ran cyfnod y penodiad.

(4) Rhaid peidio â phenodi neb o dan baragraff (3) oni bai ei fod yn bodloni'r holl ofynion ynglŷn â chymwysterau staff sy'n gymwys mewn perthynas â'i benodi.

(5) Os yw'n ymddangos i'r corff llywodraethu yn achos unrhyw swydd y byddai'n briodol cymryd person ymlaen yn y modd sydd wedi'i grybwyll ym mharagraff (2), fe gaiff y corff llywodraethu—

(a) cymryd person ymlaen, neu

(b) trefnu cymryd person ymlaen

i roi ei wasanaethau fel athro neu athrawes yn yr ysgol heblaw o dan gontract cyflogaeth.

(6) Rhaid i unrhyw gymryd ymlaen o dan baragraff (5) fod ar unrhyw delerau o ran cyfnod y cymryd ymlaen a bennir gan y corff llywodraethu; ond rhaid peidio â chymryd neb ymlaen o dan y paragraff hwnnw oni bai ei fod yn bodloni'r holl ofynion ynglŷn â chymwysterau staff sy'n gymwys

mewn perthynas ag athro neu athrawes yn y swydd y byddai'n gweithredu fel athro neu athrawes dros dro ynddi.

(7) Cyn cymryd unrhyw un o'r camau sydd wedi'u crybwyll ym mharagraffau (8) i (16), mae'n rhaid i'r corff llywodraethu—

(a) penderfynu ar fanyleb i'r swydd drwy ymgynghori â'r pennaeth, a

(b) anfon copi o'r fanyleb at yr awdurdod addysg lleol.

(8) Caiff yr awdurdod addysg lleol enwebu unrhyw berson i'w ystyried i'w benodi i'r swydd y mae'n ymddangos i'r awdurdod ei fod yn gymwys i'w llenwi ac sydd adeg ei enwebu naill ai—

(a) yn gyflogai i'r awdurdod neu wedi'i benodi i ymgymryd â chyflogaeth gyda'r awdurdod yn y dyfodol, neu

(b) wedi'i gyflogi gan gorff llywodraethu ysgol sefydledig, ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol arbennig sefydledig a gynhelir gan yr awdurdod.

(9) Rhaid i'r awdurdod beidio ag enwebu neb sy'n cael ei gyflogi mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan yr awdurdod o dan baragraff (8) heb gydsyniad corff llywodraethu'r ysgol honno.

(10) Caiff y corff llywodraethu hysbysebu'r swydd wag ar unrhyw adeg ar ôl iddo anfon copi o fanyleb y swydd at yr awdurdod addysg lleol yn unol â pharagraff (7), ac mae'n rhaid iddo wneud hynny oni bai ei fod yn penodi i'r swydd naill ai—

(a) person sydd wedi'i enwebu gan yr awdurdod addysg lleol o dan baragraffau (8) a (9), neu

(b) person sydd eisoes wedi'i gyflogi i weithio yn yr ysgol.

(11) Os yw'r corff llywodraethu'n hysbysebu'r swydd wag, mae'n rhaid iddo wneud hynny mewn modd sydd ym marn y corff llywodraethu yn debyg o'i dwyn i sylw personau (gan gynnwys cyflogeion yr awdurdod) sy'n gymwys i'w llenwi.

(12) Os yw'r corff llywodraethu'n hysbysebu'r swydd wag, mae'n rhaid iddo—

(a) rhoi cyfweliad i unrhyw ymgeiswyr am y swydd ac unrhyw rai o'r personau (os oes rhai) sydd wedi'u henwebu gan yr awdurdod addysg lleol o dan baragraffau (8) a (9) ag y mae'n gweld yn dda, a

(b) os yw'n credu ei bod yn briodol gwneud hynny, penodi i'r swydd naill ai un o'r ymgeiswyr y cyfwelwyd â hwy gan y corff llywodraethu neu berson sydd wedi'i enwebu gan yr awdurdod.

(13) Os nad yw'r corff llywodraethu'n gallu cytuno ar berson i'w benodi i'r swydd, caiff ailadrodd y camau sydd wedi'u crybwyll ym mharagraff (12)(a) a (b), gan ailhysbysebu'r swydd wag yn unol â pharagraff (11) yn gyntaf neu beidio.

(14) Rhaid peidio â phenodi neb o dan y paragraff hwn oni bai ei fod yn bodloni'r holl ofynion ynglŷn â chymwysterau staff sy'n gymwys mewn perthynas â'i benodi.

(15) Mewn cysylltiad ag unrhyw absenoldeb ar ran y person sydd am y tro yn dal unrhyw swydd o'r math sydd wedi'i grybwyll ym mharagraff (1), caiff y corff llywodraethu—

(a) cymryd person ymlaen, neu

(b) trefnu cymryd person ymlaen

i roi ei wasanaethau fel athro neu athrawes yn yr ysgol heblaw o dan gontract cyflogaeth.

(16) Rhaid peidio â chymryd neb ymlaen o dan baragraff (15) oni bai ei fod yn bodloni'r holl ofynion ynglŷn â chymwysterau staff sy'n gymwys mewn perthynas ag athro neu athrawes yn y swydd y byddai'n gweithredu fel athro neu athrawes dos dro ynddi.

**Penodi staff cymorth**

**27.**—(1) Ac eithrio mewn achos lle mae'r corff llywodraethu a'r awdurdod yn cytuno y dylai penodiad aelod o'r staff cymorth yn yr ysgol gael ei wneud gan yr awdurdod—

(a) mae'n rhaid i unrhyw benodiad o'r fath gael ei wneud gan y corff llywodraethu; a

(b) mae'n rhaid i'r person a benodir gael ei gyflogi gan y corff llywodraethu o dan gontract cyflogaeth, neu ei gymryd ymlaen gan y corff llywodraethu heblaw o dan gontract cyflogaeth, ar unrhyw delerau y mae'r corff llywodraethu'n eu gweld yn dda.

(2) Cyn penodi o dan y paragraff hwn mae'n rhaid i'r corff llywodraethu ymgynghori â'r pennaeth (pe na bai'n cael ei gynnwys yn y penderfyniad i benodi fel arall).

(3) Rhaid peidio â phenodi neb yn aelod o'r staff cymorth yn yr ysgol, nac—

(a) gan y corff llywodraethu, na

(b) gan yr awdurdod,

oni bai ei fod yn bodloni'r holl ofynion ynglŷn â chymwysterau staff sy'n gymwys mewn perthynas â'i benodi.

**Atal staff**

**28.**—(1) Mae gan y corff llywodraethu a'r pennaeth ill dau bŵer i atal unrhyw berson sydd wedi'i gyflogi neu wedi'i gymryd ymlaen heblaw o dan gontract cyflogaeth i weithio yn yr ysgol os oes angen ei atal o'r ysgol, ym marn y corff llywodraethu neu (yn ôl fel y digwydd) y pennaeth.

(2) Wrth arfer y pŵer hwnnw, mae'n rhaid i'r corff llywodraethu neu'r pennaeth hysbysu'r pennaeth neu (yn ôl fel y digwydd) y corff llywodraethu ar unwaith.

(3) Dim ond y corff llywodraethu a gaiff ddod ag ataliad o dan y rheoliad yma i ben.

(4) Wrth ddod ag ataliad o'r fath i ben, rhaid i'r corff llywodraethu hysbysu'r pennaeth ar unwaith.

(5) Yn y rheoliad hwn, ystyr "atal" ("*suspend*") yw atal heb golli enillion.

**Diswyddo staff**

**29.**—(1) Cyn penderfynu y dylai contract cyflogaeth person sydd wedi'i gyflogi i weithio yn yr ysgol gyda'r corff llywodraethu gael ei derfynu neu beidio â chael ei adnewyddu, mae'n rhaid i'r corff llywodraethu—

(a) gwneud trefniadau i roi cyfle i'r person hwnnw gyflwyno sylwadau am y camau y mae'r corff llywodraethu'n bwriadu eu cymryd (gan gynnwys, os yw'r person yn dymuno, sylwadau ar lafar i unrhyw berson neu bersonau a benodir at y diben gan y corff llywodraethu), a

(b) rhoi sylw i unrhyw sylwadau sy'n cael eu cyflwyno gan y person.

(2) Rhaid hefyd i'r corff llywodraethu wneud trefniadau i roi cyfle i unrhyw berson y mae wedi gwneud penderfyniad o'r fath mewn perthynas ag ef apelio yn erbyn y penderfyniad cyn i'r corff llywodraethu ei roi ar waith.

(3) Os yw wedi penderfynu y dylai contract cyflogaeth person gael ei derfynu, yna, yn ddarostyngedig i unrhyw apêl o'r fath, mae'n rhaid i'r corff llywodraethu roi ei benderfyniad ar waith drwy wneud y canlynol—

(a) rhoi i'r person o dan sylw unrhyw rybudd i derfynu ei gontract cyflogaeth sy'n ofynnol o dan y contract hwnnw; neu

(b) terfynu'r contract hwnnw heb roi rhybudd os yw'r amgylchiadau'n golygu bod ganddynt hawl i wneud hynny oherwydd ymddygiad y person.

(4) Nid oes dim yn y rheoliad hwn i gael ei ddarllen fel pe bai'n cyfeirio at berson—

(a) sydd i fod i beidio â gweithio yn yr ysgol am y rheswm bod ei gontract cyflogaeth wedi dod i ben am fod amser wedi mynd heibio; a

(b) sydd heb gael ei gyflogi'n ddi-dor yn yr ysgol, o fewn ystyr Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996, am gyfnod yr un mor hir o leiaf â'r cyfnod sydd am y tro wedi'i bennu yn adran 108(1) o'r Ddeddf honno.

**30.**—(1) Mae gan y pennaeth (ac eithrio os y pennaeth yw'r person o dan sylw) a phrif swyddog addysg yr awdurdod addysg lleol hawl i fod yn bresennol yn holl wrandawiadau'r pwyllgor disgyblu staff a'r pwyllgor apelau disgyblu, er mwyn rhoi cyngor(**2**).

(2) Rhaid i'r corff llywodraethu ystyried unrhyw gyngor sy'n cael ei roi gan berson sydd â hawl i fod yn bresennol mewn trafodion o'r fath o dan y rheoliad hwn cyn gwneud unrhyw benderfyniad o'r fath.

**31.** Nid yw'n ofynnol i'r corff llywodraethu gydymffurfio â rheoliad 29 mewn perthynas â gwneud penderfyniad o'r math sydd wedi'i grybwyll yn rheoliad 29(1) mewn achos—

(a) lle mae'n ofynnol terfynu neu beidio ag adnewyddu contract cyflogaeth y person o dan sylw yn rhinwedd cyfarwyddyd sydd wedi'i roi o dan adran 142 o Ddeddf 2002 neu reoliadau sydd wedi'u gwneud o dan adran 19 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998, neu

(b) lle mae'r person o dan sylw yn athro neu athrawes sy'n destun gorchymyn cofrestru amodol, gorchymyn atal neu orchymyn gwahardd sydd wedi'i wneud o dan Atodlen 2 i Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998.

### Staff a gyflogir gan yr awdurdod

**32.**—(1) Nid oes dim yn rheoliad 29 yn gymwys mewn perthynas â pherson sydd wedi'i gyflogi gan yr awdurdod i weithio yn yr ysgol.

(2) Mae rheoliadau 16 a 17 yn gymwys mewn perthynas ag atal, diswyddo neu dynnu'n ôl o'r ysgol unrhyw aelod o'r staff sydd wedi'i gyflogi gan yr awdurdod fel y maent yn gymwys mewn perthynas ag atal, diswyddo neu dynnu'n ôl o ysgol y mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddi berson sydd wedi'i gyflogi i weithio yn yr ysgol.

(3) Mae rheoliad 18 yn gymwys i unrhyw berson sydd wedi'i gyflogi neu sydd i'w gyflogi gan yr awdurdod i weithio yn yr ysgol dim ond mewn cysylltiad â darparu prydau fel pe bai'n ysgol y mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddi.

### Penodi penaethiaid ysgolion urddau crefyddol Catholig Rhufeinig

**33.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i ysgol wirfoddol a gynorthwyir os yw'r ymddiriedolwyr o dan weithred ymddiriedolaeth sy'n ymwneud â'r ysgol hefyd yn ymddiriedolwyr urdd grefyddol Gatholig Rufeinig ("yr urdd").

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (5), mae paragraffau (3) a (4) mewn grym mewn perthynas â llenwi swydd wag i bennaeth yr ysgol, yn lle rheoliad 24(7) i (12).

(3) Rhaid i'r corff llywodraethu hysbysu'r Uchel Fam neu'r Uchel Dad cyffredinol am y swydd wag yn ysgrifenedig.

(4) Rhaid i'r corff llywodraethu—

(a) rhoi cyfweliad i'r personau hynny sy'n aelodau o'r urdd ac a gynigir yn ymgeiswyr i'w penodi i'r swydd gan yr Uchel Fam neu'r Uchel Dad cyffredinol, a

(**2**) Mae'r gofynion i sefydlu pwyllgor disgyblu staff a phwyllgor apeliadau disgyblu i'w cael yn Rheoliadau Llywodraeth Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005.

(b) penodi i'r swydd un o'r personau y cyfwelwyd â hwy oni bai bod gan y corff llywodraethu reswm da dros beidio â gwneud yr un penodiad o'r fath, yn rhinwedd y ffaith nad yw'r personau'n bodloni'r holl ofynion perthnasol ynglŷn â chymwysterau staff neu fel arall.

(5) Nid oes neb i gael ei benodi o dan baragraff (4)(b) os nad yw'n bodloni unrhyw ofynion ynglŷn â chymwysterau staff sy'n gymwys mewn perthynas â'i benodi.

(6) Os na phenodir gan y corff llywodraethu o dan baragraff (4)(b), mae rheoliad 24(7) i (12) mewn grym mewn perthynas â llenwi'r swydd wag.

(7) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "yr Uchel Fam neu'r Uchel Dad cyffredinol" ("*the Major Superior*") yw Uchel Fam neu Uchel Dad cyffredinol yr urdd;

ystyr "urdd grefyddol Gatholig Rufeinig" ("*Roman Catholic religious order*") yw sefydliad crefyddol Catholig Rufeining neu gymdeithas bywyd apostolig Catholig.

**Gweithdrefnau dewis sy'n cynnwys y corff llywodraethu cyfan**

**34.**—(1) Os yw corff llywodraethu ysgol wirfoddol a gynorthwyir yn penderfynu felly (ac nad yw rheoliad 33 yn gymwys), mae paragraffau (2) i (6) yn gymwys mewn perthynas â llenwi swydd wag i bennaeth neu ddirprwy bennaeth yr ysgol, yn lle rheoliad 24(8) i (12).

(2) Nid oes angen i banel dewis gael ei benodi gan y corff llywodraethu o dan reoliad 24(8), ond mae'r darpariaethau canlynol, sef—

(a) rheoliad 24(8)(a) a (b), a

(b) rheoliad 24(9),

yn gymwys i'r corff llywodraethu neu (yn ôl fel y digwydd) i unrhyw benderfyniad gan y corff hwnnw sy'n cael ei gymryd yn rhinwedd y paragraff hwn fel y mae'n gymwys i banel dewis neu (yn ôl fel y digwydd) i unrhyw benderfyniad gan banel o'r fath sy'n cael ei gymryd o dan reoliad 24.

(3) Os yw'r awdurdod addysg lleol, o fewn y cyfnod o bedwar diwrnod ar ddeg sy'n dechrau ar y dyddiad y caiff ei hysbysu o dan reoliad 24(8)(a) (fel y mae'n gymwys yn unol â pharagraff (2)), yn cyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r corff llywodraethu nad yw unrhyw un o'r ymgeiswyr sydd wedi'i ddewis gan y corff llywodraethu yn berson addas i'w benodi i swydd pennaeth, rhaid i'r corff llywodraethu beidio â phenodi'r person hwnnw oni bai bod y corff llywodraethu—

(a) wedi ystyried y sylwadau hynny, a

(b) wedi hysbysu'r awdurdod am ei ymateb i'r sylwadau.

(4) Rhaid i'r corff llywodraethu beidio â phenodi unrhyw berson os nad yw'n bodloni unrhyw ofynion ynglŷn â chymwysterau staff sy'n gymwys mewn perthynas â'i benodi.

(5) Os nad yw'n penodi unrhyw berson y cyfwelwyd ag ef gan y corff llywodraethu, fe gaiff y corff llywodraethu—

(a) os yw'n gweld yn dda, ailhysbysebu'r swydd wag yn y modd sy'n ofynnol o dan reoliad 24(7), a

(b) p'un a fydd yn ailhysbysebu'r swydd wag neu beidio, ailadrodd y camau sydd wedi'u crybwyll yn rheoliad 24(8)(a) a (b) (fel y maent yn gymwys yn unol â pharagraff (2)).